Beth yw Cyfathrebu?

**00:00** Helo a chroeso i'r recordiad, heddiw bydden ni'n canolbwyntio ar Gyfathrebu.

**00:09** Pwnc penodol y recordiad hwn bydd Beth yw cyfathrebu ble bydden ni'n edrych ar fathau gwahanol o gyfathrebu.

**00:21** Erbyn diwedd y sesiwn byddwch yn: Deall gofynion y cymhwyster Cyfathrebu, Adnabod gwahanol ffyrdd o gyfathrebu a sut i gyfathrebu'n effeithiol, Deall sut i ffeindio nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu.

**00:39** Mae'r recordiad hwn yn cychwyn o'r gyfres sy'n rhoi gwybodaeth a thasgau i chi sy'n cyd-fynd â chwricwlwm Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol Lefel 2. Os ydych yn anelu am y cymhwyster hwn bydd angen cwblhau tasg dan reolaeth ar ôl cwblhau'r holl bynciau.

Mae'r dasg dan reolaeth yn brosiect annibynnol 'llyfr agored' sy'n golygu eich bod chi'n gallu defnyddio unrhyw offer sydd ar gael i chi fel arfer mewn sefyllfa go iawn (e.e. nodiadau neu ryngrwyd hyd yn oed!)

Bydd y dasg ar bwnc penodol a bydd gofyn i chi gwblhau tasg darllen a deall, dwy dasg ysgrifenedig, trafodaeth a chyflwyniad llafar. I orffen y cymhwyster wedyn bydd angen cwblhau prawf amlddewis 20 cwestiwn yn seiliedig ar ddau destun gwahanol.

**01:35** Dyma restr o gwestiynau cyffredin sy'n codi am y dasg dan reolaeth.

Cwestiwn 1, pa mor hir mae'n cymryd i'w gwblhau? Mae'r dasg dan reolaeth ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 yn cymryd hyd at 5 awr.
Cwestiwn 2, Oes rhaid i mi ei wneud i gyd mewn un diwrnod? Gallwch ei gwblhau mewn diwrnod neu gallwch ei ledaenu ar draws cwpwl o ddyddiau neu wythnosau i'w gwblhau mewn rhannau bach.
Cwestiwn 3, Beth ydw i angen ar gyfer y dasg? Os ydych yn ei gwblhau mewn person gallwch gael copi o'r dasg ar bapur, os ydych yn ei wneud yn rhithiol (o bell) bydd angen gallu cysylltu gyda'r cyfarfod a gweld y dasg ei hun dros eich sgrin a'i lenwi yn ddigidol. Bydd hawl gennych ddefnyddio'r we i wneud ymchwil a geiriadur ar gyfer y dasg.
Cwestiwn 4, Sawl person sydd angen ei gwblhau ar yr un pryd? Gall y dasg darllen a deall a'r tasgau ysgrifenedig cael eu cwblhau yn unigol ond mae angen grŵp o o leiaf 3 ar gyfer y drafodaeth a chynulleidfa o 3 ar gyfer y cyflwyniad. Nid oes angen iddyn nhw fod yn gwneud y cymhwyster i gynorthwyo.
Cwestiwn 5, Pa fath o dasgau sydd? Mae'r tasgau byw yn amrywio ac yn cael eu newid yn aml. Byddem yn ceisio dewis pwnc sydd fwyaf perthnasol i chi.
Cwestiwn 6, Beth os nad ydy'r pwnc yn berthnasol i mi? Does dim angen i chi wybod unrhyw beth am y pwnc o flaen llaw, bydd y wybodaeth angenrheidiol yn y dasg ei hun.

**03:21** Beth mae cyfathrebu yn golygu i chi? Gwasgwch saib ar y fideo a nodwch eich syniadau cyn cychwyn eto.

Diffiniad cyfathrebu yw 'rhoi neu gyfnewid gwybodaeth wrth siarad, ysgrifennu neu wrth ddefnyddio cyfrwng arall'. Gall y cyfathrebu fod yn benodol at rywun; llythyr neu e-bost personol, neu gall fod ar gyfer gynulleidfa fawr o bobl; erthygl neu yn boster mewn adeilad.

**03:56** Ydych chi'n gallu enwi rhai o'r dulliau cyfathrebu isod? Gwasgwch saib ar y fideo wedyn cychwyn eto i wirio eich atebion.

Llythyr, galwad ffôn, sgwrs neu gyfarfod, cyflwyniad neu araith, e-bost, neges testun, cyfathrebu di-eiriau fel chwifio neu fynegiant wyneb, teledu neu radio e.e. newyddion, hysbyseb.

**04:32** Sut ydych chi'n cyfathrebu'n effeithiol? Gwasgwch saib i nodi eich syniadau, wedyn ail-ddechreuwch y fideo pan rydych yn barod.

Tôn llais: mae'n llawer haws canolbwyntio ar dôn llais sy'n amrywio yn hytrach nag un undonog. Mae angen sicrhau bod y tôn yn briodol ar gyfer y cynnwys a'r gynulleidfa hefyd. Ni fydd tôn ffraeth yn addas wrth ddarllen stori newyddion difrifol.
Eglurdeb: er mwyn sicrhau bod eich cynulleidfa yn eich deall dylech gadw at y pwynt a defnyddio termau y byddant yn eu deall.
Ystyried y gynulleidfa: mae'n bwysig gwybod pwy yr ydych yn targedu wrth gyfathrebu. Ni fyddwch yn cyfathrebu yn yr un modd a ffrind agos a byddwch gyda'ch cyflogwr neu gwmni allanol.
Y fath o gyfathrebu: mae angen ystyried pa fath o gyfathrebu sydd mwyaf priodol i'r sefyllfa. Nid yw sgwrs unigol yn effeithiol i rannu gwybodaeth gyda llawer o bobl a ni fydd hysbyseb radio lleol yn briodol i rannu gwybodaeth bersonol.
Iaith y corff: defnyddiwch fynegiant wyneb clir ac osgoi iaith corff negyddol fel croesi breichiau.

**05:55** Adnabod gwahanol fathau o ysgrifennu.

**06:01** Mae'n bwysig i chi ddod i'r arfer gyda gwahanol fathau o ysgrifennu, darnau darllen a chyfathrebu. Mae ysgrifennu ffurfiol wedi ei ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa nad ydych yn adnabod ar lefel personol e.e. mewn e-bost at gyflogwr neu cais am swydd. Mae'n dilyn rheolau, confensiynau ac arferion cymdeithasol a fel arfer yn golygu ysgrifennu mewn ffordd byr, cryno i gyfleu gwybodaeth.

**06:32** Mae ysgrifennu anffurfiol yn fwy priodol mewn sefyllfa naturiol bob dydd gyda rhywun rydych chi'n ei adnabod, fel neges testun at ffrind neu gofnod mewn dyddiadur.

**06:48** Gwasgwch saib ar y fideo a sganiwch y cod QR i gwblhau'r cwis. Os nad oes modd gwneud hyn parhewch gyda'r fideo a rhowch dro ar y dasg honno yn lle.

**07:04** Gwasgwch saib ar y fideo os nad oeddech wedi defnyddio'r cod QR a cheisiwch benderfynu os yw'r mathau yma o gyfathrebu yn ffurfiol, anffurfiol neu gall fod y ddau. Parhewch gyda'r fideo pan rydych yn barod.

Cyfweliad ar y radio: gall hwn fod y ddau yn dibynnu ar y cyfweliad. Mae cyfweliad ar raglen newyddion yn debygol o fod yn ffurfiol tra bod cyfweliad gydag artist ar

raglen gerddoriaeth yn fwy tebygol o fod yn anffurfiol.
Dyddiadur personol: bydd hwn yn anffurfiol gan fod person sy'n ysgrifennu dyddiadur yn cyfathrebu â'i hunan.
Galwad ffôn gyda ffrind: rydych yn adnabod ffrind yn dda felly byddwch yn siarad yn anffurfiol gyda nhw fel arfer.
Erthygl papur newydd: mae'r rhain yn ffurfiol gan eu bod nhw ar gyfer y cyhoedd.
Llythyr gan y banc: mae banc yn sefydliad proffesiynol ac felly'n defnyddio cyfathrebu ffurfiol.
Neges destun gan hen ffrind: yr un peth a galwad ffôn, byddwch yn defnyddio iaith anffurfiol gyda ffrind.
Blog ar-lein: gall hwn fod y ddau yn dibynnu ar fformat y blog. Mae rhai sefydliadau yn blogio a bydd y rhain yn ffurfiol ond mae blogiau personol yn dueddol i fod yn anffurfiol e.e. blog coginio.
Erthygl mewn cylchgrawn clecs: eto, gall fod y ddau yn dibynnu ar fformat y cylchgrawn.
Trafodaeth am newyddion gyda'r teulu: gan eich bod yn adnabod eich teulu'n dda bydd eich trafodaeth yn anffurfiol.
Cwyn dros e-bost i gwmni: dyle cyfathrebu gyda chwmni bod yn ffurfiol pob tro.
Archebu mewn bwyty: er nad ydych chi'n adnabod gweinydd yn bersonol fel arfer mae'r sefyllfa yn anffurfiol felly mae cyfathrebu'n anffurfiol yn briodol.
Hysbyseb swydd: mae'n ddogfen swyddogol felly yn defnyddio iaith ffurfiol
Gwefan y Llywodraeth: fel hysbyseb swydd mae hon yn destun swyddogol ac felly yn ffurfiol
Rhaglen deledu comedi: gall fod y ddau yn dibynnu ar fformat a steil y rhaglen
Cyfarfod gyda rheolwr: gan fod hwn yn sefyllfa broffesiynol dyle fod yn ffurfiol.

**09:53** Wrth edrych ar ddarn o ysgrifen cofiwch eich BICS. Beth yw bwriad neu bwrpas y testun? Ydy e wedi ysgrifennu i roi gwybodaeth, i ddiddanu neu i roi cyfarwyddiadau? Pa fath o iaith sy'n cael ei ddefnyddio? Ydy'n ffurfiol neu'n anffurfiol? Ydy'r brawddegau yn fyr neu'n hir? Oes llawer o ansoddeiriau i ddisgrifio pethau? Pwy yw'r gynulleidfa? Ydy'r darn yn targedu oedran penodol neu efallai grŵp o bobl sydd â diddordeb tebyg? Pa fath o destun yw e? Erthygl? Rysáit? Hysbyseb? Beth yw nodweddion (features) y testun? Gall y rhain gynnwys defnydd teitlau ac is-deitlau, pwyntiau bwled neu ddelweddau.

**10:47** Gwasgwch saib ar y fideo a meddyliwch am bwrpas, iaith, cynulleidfa a strwythur y darn hwn. Parhewch pan ydych yn barod i symud ymlaen i roi tro ar y cwis.

**11:04** Gwnewch nodyn o'ch ateb pob tro.
Cwestiwn 1, Prif fwriad y testun yw...
a) perswadio rhywun i goginio cwcis
b) rhoi cyfarwyddiadau sut i goginio cwcis
c) esbonio beth yw CogUrdd

**11:33** Cwestiwn 2, Mae iaith yn y testun yn...
a) farddonol

b) plentynnaidd
c) uniongyrchol

**11:57** Cwestiwn 3, Cynulleidfa'r testun yw...
a) plant a phobl ifainc
b) cogyddion
c) staff yr Urdd

**12:21** Cwestiwn 4, Mae'r testun yn defnyddio'r nodweddion ...
a) pwyntiau bwled, is-deitlau ac ystadegau
b) delweddau, teitlau a phwyntiau bwled
c) is-deitlau, delweddau a rhifo

**12:52** Cwestiwn 1. B sydd yn gywir, mae'r testun yn rhoi cyfarwyddiadau a rhestr offer er mwyn i rywun gallu gwneud cwcis.

**13:05** Cwestiwn 2. C sydd yn gywir. Mae'r iaith yn uniongyrchol gan ei fod yn cyfleu'r ystyr yn glir ac yn gryno.

**13:18** Cwestiwn 3. A sydd yn gywir. Mae'r darn yn dod o gylchgrawn i bobl ifainc ac mae'r steil lliwgar, syml gyda nifer o ddelweddau yn awgrymu taw plant yw'r gynulleidfa.

**13:36** Cwestiwn 4. C yw'r ateb cywir. Mae yna is-deitlau i rannau gwahanol o'r erthygl gyda nifer o ddelweddau a chyfarwyddiau wedi rhifo yn y rysáit.

**13:51** Tasg BICS: Ewch ati i chwilio am 3 testun gwahanol yn eich tŷ neu ar y we. Gwnewch ddadansoddiad BICS ar gyfer pob un.

**14:07** Diolch yn fawr iawn i chi am ymuno a chwblhau'r gwaith gyda ni. Mae mwy o adnoddau a gweithgareddau ar gael ar wefan HWB sgiliau. Defnyddiwch y cod QR isod i fynd yn syth ato. Dyma ddolen at yr adnodd. Cofiwch wylio'r recordiadau eraill sy'n cyd-fynd gyda phynciau'r adnodd.